WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1836A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Martin Gibson, Gareth Jones a Julie Rees a reolwyr gan Non Jenkins, dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae lefel ei gronfeydd wrth gefn sy'n isel yn hanesyddol yn golygu bod rhaid iddo gyrraedd ei dargedau gwariant ac arbedion i sicrhau ei fod yn parhau i fod â chynaliadwyedd ariannol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae her y Cyngor o ran pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2020-21 wedi cael ei hysgafnhau gan setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, ac mae ei strategaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar arbedion o'i raglen drawsnewid, sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd 6

Dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth wedi gallu cael ei wrthbwyso gan danwariannau mewn rhai eraill, defnydd y cytunwyd arno o gronfeydd wrth gefn a ffawdelw a adnabuwyd 8

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyflawni bron i 80% o'i arbedion wedi'u cynllunio; fodd bynnag, bu angen iddo ddatblygu arbedion amgen i gwrdd â'r diffyg o £3 miliwn 10

Bu gan y Cyngor wastad lefel gymharol isel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi bod yn gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac, er y rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach erbyn 2020-21, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw hyn yn gynaliadwy 12

Er bod y Dreth Gyngor yn ffynhonnell incwm fwyfwy pwysig i'r Cyngor, mae'r gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cynghorau Cymru 14

Mae lefel fenthyca'r Cyngor ar y cyfan wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £177m[1]**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 3,240 o bobl**



**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £330m[2]**


3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn ym mhob awdurdod yng Nghymru am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

[1] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, 5 Mawrth 2019 Eitem 9 ar Agendau Cyfarfod y Cyngor Llawn Cyllideb 2019/20 a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

[2] Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2018-19

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor[3]

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae lefel ei gronfeydd wrth gefn sy'n isel yn hanesyddol yn golygu bod rhaid iddo gyrraedd ei dargedau gwariant ac arbedion i sicrhau ei fod yn parhau i fod â chynaliadwyedd ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae her y Cyngor o ran pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2020-21 wedi cael ei hysgafnhau gan setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, ac mae ei strategaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar arbedion o'i raglen drawsnewid, sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd;
- dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth wedi gallu cael ei wrthbwyso gan danwariannau mewn rhai

[3] Cyngor Torfaen Ebrill 2020

eraill, defnydd y cytunwyd arno o gronfeydd wrth gefn a ffawdelw a adnabuwyd;

- dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyflawni bron i 80% o'i arbedion wedi'u cynllunio; fodd bynnag, bu angen iddo ddatblygu arbedion amgen i gwrdd â'r diffyg o £3 miliwn;
- bu gan y Cyngor wastad lefel gymharol isel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi bod yn gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac, er y rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach erbyn 2020-21, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw hyn yn gynaliadwy;
- er bod y Dreth Gyngor yn ffynhonnell incwm fwyfwy pwysig i'r Cyngor, mae'r gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cynghorau Cymru; ac
- mae lefel fenthyca'r Cyngor ar y cyfan wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf.

# Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal i fod yn her, ac mae lefel ei gronfeydd wrth gefn sy'n isel yn hanesyddol yn golygu bod rhaid iddo gyrraedd ei dargedau gwariant ac arbedion i sicrhau ei fod yn parhau i fod â chynaliadwyedd ariannol

## Mae her y Cyngor o ran pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2020-21 wedi cael ei hysgafnhau gan setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, ac mae ei strategaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar arbedion o'i raglen drawsnewid, sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

### Yr hyn a ganfuom


7 Canfuom fod her y Cyngor o ran pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2020-21 wedi cael ei hysgafnhau gan setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, ac mae ei strategaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar arbedion o'i raglen drawsnewid, sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd:

- roedd cyllideb refeniw net y Cyngor fel a ganlyn:
  - £168.2m[4] (Miliwn) yn 2017-18;
  - a gynyddodd £4.8m (2.9%) i £173[5]m yn 2018-19;
  - ac a gynyddodd wedyn £4m (2.3%) i £177m[6] yn 2019-20; ac
  - y rhagwelir y bydd yn cynyddu £10m (5.6%) i £187m yn 2020-21[7].
- mae setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â dull cadarn o gynllunio'r gyllideb wedi ei gwneud yn bosibl buddsoddi ym meysydd allweddol Gwasanaethau Plant ac Addysg. Mae hefyd wedi golygu bod y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor wedi cael ei leihau a bod cynllun recriwtio ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol wedi cael ei gyflwyno.
- mae gan Weithrediaeth ac uwch swyddogion y Cyngor ddealltwriaeth glir a chyffredin am heriau ariannol sylweddol y Cyngor yn awr ac yn y dyfodol.
- yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2019 cydnabu'r Cyngor bwysau gwariant cynyddol yn ei ysgolion y rhagwelir y byddant yn £10.9m ar gyfer y cyfnod 2020-24, ac eto nid yw ar hyn o bryd wedi cynnwys ysgolion yn uniongyrchol o fewn y rhaglen drawsnewid T22.
- ym mis Ebrill 2019, fe gytunodd y Cabinet ar raglen drawsnewid wedi'i diweddaru, a adwaenir fel T22, sy'n canolbwyntio ar y meysydd gwasanaeth canlynol:
  - Gwasanaethau Plant
  - Cwsmer a Digidol
  - Gwasanaeth Cymorth
- mae strategaeth y Cyngor yn y dyfodol yn dibynnu'n sylweddol, ond nid yn gyfan gwbl, ar arbedion o'i raglen drawsnewid (T22) y mae ei manteision ariannol yn dal i gael eu cyfrifo. Felly nid yw cynllun ariannol y Cyngor wedi cael ei gwblhau eto.
- ym mis Mehefin 2019, fe benderfynodd y Cyngor ohirio cyflwyno Polisi Ffioedd a Thaliadau ar draws y Cyngor cyfan tan wanwyn 2020. Nid yw goblygiadau'r polisi diwygiedig wedi'u cynnwys yng nghynlluniau ariannol y Cyngor ar hyn o bryd.
- ganol mis Rhagfyr 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 4.5% yng Ngrant Cynnal Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020-21. Mae hwn bellach wedi cael ei gynnwys yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2020-21.
- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i strwythuro'n dda ac yn fanwl.

[4] Cyngor Torfaen, Datganiad Cyfrifon 2017-18, Tudalen 5
[5] Cyngor Torfaen, Datganiad Cyfrifon 2018-19, Tudalen 5
[6] Cyngor Torfaen, Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020-24
[7] Cyngor Torfaen, adroddiad i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2020 ar gyllideb 2020-21

Arddangosyn 3: Mae Cyngor Torfaen yn rhagamcanu bwlch o £12 miliwn yn ei gyllid o 2021-25[8]

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid sy'n gyfanswm o £12 miliwn y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y pedair blynedd o 2021-25.




## Dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth wedi gallu cael ei wrthbwyso gan danwariannau mewn rhai eraill, defnydd y cytunwyd arno o gronfeydd wrth gefn a ffawdelw a adnabuwyd

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth wedi cael ei wrthbwyso gan danwariannau mewn rhai eraill, defnydd y cytunwyd

[8] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021-25

arno o gronfeydd wrth gefn a ffawdelw a adnabuwyd. Daethom i'r casgliad hwn am y rheswm canlynol:

- ar ddiwedd 2017-18 cofnododd y Cyngor danwariannau nodedig yn erbyn ei gyllidebau refeniw net mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (£1 miliwn), Cyllid cyfalaf (£0.24 miliwn) ac Addysg (£0.25 miliwn). Mae'r tanwariannau hyn yn rhannol yn gwrthbwyso gorwariant o £2.2 miliwn ar gynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.
- ar ddiwedd 2018-19 cofnododd y Cyngor danwariannau nodedig yn erbyn ei gyllidebau refeniw net mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (£0.25 miliwn), ad-daliad TAW gan Cyllid a Thollau EM (£0.27m) a newid i safonau cyfrifyddu a arweiniodd at ffawdelw refeniw untro o £2.6 miliwn. Fe wnaeth y tanwariannau hyn wrthbwyso gorwariant o £1.5 miliwn ar gynnydd yn nifer y lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Blant a £0.4 miliwn mewn Gwasanaethau Cymdogaeth.
- ar gyfer 2019-20 cafodd gorwariant cychwynnol rhagamcanol o £2.4 miliwn ar y gyllideb refeniw ei nodi mewn adroddiad i Gabinet mis Medi 2019. Gorwariannau nodedig oedd Gofal Cymdeithasol i Blant (£2 filiwn) a Chymdogaethau (£0.9 miliwn).
- roedd eu Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021-25 yn rhagweld £12 miliwn pellach ar ôl cyfrifo am godiadau arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.95% ym mhob blwyddyn.
- mae Gwasanaethau Plant y Cyngor wedi rhagamcanu gorwariant cronnol o £6m ar gyllidebau yn ystod y cyfnod 2017-18 hyd at yr alldro a ragwelir ar gyfer 2019-20. Mae'r Cyngor wedi rhoi rhai mentrau newydd ar waith yn ei Wasanaethau Plant, gan fuddsoddi hefyd yn y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r pwysau sylweddol hyn o ran costau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso a fydd y mentrau'n cael yr effaith a ddymunir ar bwysau ariannol.

Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net [9]

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma yn ôl y sefyllfa ar 31 Hydref 2019

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y (tanwariant)/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £168.2m | £168.2m | (£0.045m) | (0.02%) |
| 2018-19 | £173m | £170.8m | (£2.2m) | (1.3%) |
| 2019-20* y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd mis Hydref 2019 | £177m | £178.6m | £1.6m | 0.9% |

## Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyflawni bron i 80% o'i arbedion wedi'u cynllunio; fodd bynnag, bu angen iddo ddatblygu arbedion amgen i gwrdd â'r diffyg o £3 miliwn

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

[9] 2017-18 Canlyniadau Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2017-18, Mehefin 2018
2018-19 Canlyniadau Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2018-19, Mehefin 2019

2019-20 Adroddiad monitro Cyllideb mis Mawrth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Ionawr 2020

### Yr hyn a ganfuom

11 Dros y tair blynedd ddiwethaf mae’r Cyngor wedi cyflawni bron i 80% o’i arbedion wedi’u cynllunio; fodd bynnag, bu angen iddo ddatblygu arbedion amgen i gwrdd â’r diffyg o £3 miliwn. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae’r Cabinet yn cael adroddiadau monitro sy’n nodi sefyllfaoedd a ragwelir a chrynodeb o’r sefyllfa o ran cyflawni camau lliniaru. Fel rhan o adrodd ar yr alldro mae’r Cyngor yn cael gwybodaeth am y sefyllfa o ran camau llinaru a gyflawnwyd a manylion llawn y mentrau nas cyflawnwyd.
- mae gan y Cyngor hanes o beidio â chyflawni’r holl arbedion wedi’u cynllunio penodol y mae wedi’u hadnabod. Er bod bron i 80% o’r arbedion wedi’u cyflawni dros y tair blynedd ddiwethaf, ni chyflawnwyd cyfanswm o £3 miliwn, gan ychwanegu at y pwysau ariannol ar y Cyngor.
- roedd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2017-18 yn cynnwys gwerth £4.3 miliwn o arbedion, y cyflawnwyd £3.3 miliwn (77%) ohonynt.
- roedd cyllideb 2018-19 yn cynnwys gwerth £5.7 miliwn o arbedion, y cyflawnwyd £4.5 miliwn (79%) ohonynt.
- wedi’u cynnwys yn arbedion wedi’u cynllunio’r Cyngor yn 2018-19 roedd casgliad o ‘arbedion corfforaethol’ y rhoddwyd gwerth o £0.5 miliwn arnynt ac a oedd yn rhychwantu meysydd gwasanaeth lluosog ac a oedd yn ychwanegol at arbedion mewn meysydd gwasanaeth penodol. Fe nododd y Cyngor anawsterau gydag eglurder ac atebolrwydd fel ffactorau a gyfrannodd at beidio â chyflawni’r arbedion corfforaethol hyn. Ers hynny mae’r Cyngor wedi dychwelyd at gyflawni arbedion wedi’u cynllunio dim ond trwy feysydd gwasanaeth ar gyfer 2019-20.
- yn ei gyllideb ar gyfer 2019-20 pennodd y Cyngor werth £3.5 miliwn o arbedion wedi’u cynllunio. Ym mis Medi 2019, cafodd y Cabinet wybod bod y Cyngor yn rhagweld y byddai’n cyflawni £2.7 miliwn (77%).

### Arddangosyn 5 – Mae’r Cyngor wedi cyflawni bron i 80% o’i arbedion wedi’u cynllunio[10]

Mae’r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi’u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£5.7m** | **£4.5m** | **£1.2m** | **79%** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi’u cynllunio | Arbedion wedi’u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi’u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

[10] Data 2018-19 o adroddiad canlyniadau ariannol y Cyngor 2018-19.

## Bu gan y Cyngor wastad lefel gymharol isel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi bod yn gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac, er y rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach erbyn 2020-21, mae’r Cyngor yn cydnabod nad yw hyn yn gynaliadwy

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau ‘buddsoddi i arbed’ sydd wedi’u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy’n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy’n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fod cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor wedi bod yn gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac, er y rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach erbyn 2020-21, nid yw hyn yn gynaliadwy. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn bwriadu dal cronfeydd wrth gefn digonol i sicrhau ei gydnerthedd yn wyneb costau nas rhagwelwyd gan hefyd fuddsoddi yn ei wasanaethau a’i seilwaith ledled y Fwrdeistref.
- fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf mae’r Cyngor wedi defnyddio’i gronfeydd wrth gefn (gwasanaeth benodol yn bennaf) i wrthbwyso peth gorwariant ar gyllidebau a diffyg cyflawni arbedion wedi’u cynllunio.
- mae’r Cyngor yn categoreiddio’i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel a ganlyn
  - Balans y Gronfa Gyffredinol
  - Balansau Ysgolion
  - Balansau Meysydd Gwasanaeth
  - Cronfa Wrth Gefn a Darpariaeth Yswiriant
  - Cronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol
- er bod y rhesymeg ar gyfer y categorïau hyn o gymorth i’r Cyngor reoli ei faterion, i bob pwrpas mae’r balansau o fewn y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy hyn[11] yn rhyng-gyfnewidiol.

[11] Swyddfa Archwilio Cymru, Cronfeydd Wrth Gefn Awdurdodau Lleol a Benthyca Heb Gymorth – Papur ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2012

- mae'r Cyngor wedi bod yn dal lefel gymharol isel o gronfeydd wrth gefn ar y cyfan. Mae Arddangosyn 6 yn dangos bod y Cyngor wedi lleihau ei Gronfa Gyffredinol a chronfeydd wrth gefn Meysydd Gwasanaeth bob blwyddyn ers 2015-16 ac mae ei waith modelu'n rhagweld y bydd lefelau 2020-21[12] yn 3.3% o'i gyllideb flynyddol o'i gymharu â 5.2% yn 2017-18.
- mae gan y Cyngor bolisi cronfeydd wrth gefn sy'n eglur ac yn gwneud darpariaeth i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, ar y cyd â Swyddog Adran 151 y Cyngor, wneud trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn ôl y gofyn. Nid yw'r Cyngor yn pennu lefel isafswm ar gyfer ei gronfa gyffredinol a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan.

Arddangosyn 6: mae Cronfa Gyffredinol a chronfeydd Meysydd Gwasanaeth y Cyngor wedi bod yn gostwng a rhagwelir y byddant yn parhau i ostwng (mewn £Miliynau)[13]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y gostyngiad yng Nghronfa Gyffredinol a chronfeydd wrth gefn Meysydd Gwasanaeth y Cyngor ers 2015-16




- gyda chyllideb Refeniw Net y Cyngor yn cynyddu a'r Gronfa Gyffredinol a chronfeydd wrth gefn Meysydd Gwasanaeth yn gostwng, fel canran o'i Gyllideb Refeniw Net mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ei hun yn gostwng o 5.2% yn 2017-18 i 3.1% yn 2020-21.

Arddangosyn 7: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19, ffynhonnell: Adroddiadau Canlyniadau Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer 2018-19

[12] Cyngor Torfaen, Canlyniadau Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020-24


[13] Adroddiadau Canlyniadau Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer 2015-16, 2016-17, 2017-18, 2018-19 a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2020-24

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£173m**

Cyllideb Refeniw Net



**£7.45m**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy



**4.3%**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net

Arddangosyn 8: Y Gronfa Gyffredinol a chronfeydd wrth gefn Meysydd Gwasanaeth fel canran o'r gyllideb refeniw net[14]

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20* | 2020-21* |
|---|---|---|---|---|
| Y Gyllideb Refeniw Net mewn £Miliynau | £168.20 | £173.00 | £177.00 | £187.02 |
| Gwerth y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Meysydd Gwasanaeth mewn £Miliynau | £8.66 | £7.45 | £5.19[15] | £5.85 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net | 5.2% | 4.3% | 2.9% | 3.1% |

* Data a ragamcanir gan Gyngor Torfaen

## Er bod y Dreth Gyngor yn ffynhonnell incwm fwyfwy pwysig i'r Cyngor, mae'r gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cynghorau Cymru

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn

[14] Adroddiadau Canlyniadau Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer 2015-16, 2016-17, 2017-18, 2018-19 a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2020-24

[15] Cyngor Torfaen, adroddiad ariannol i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2020, para 7.4

ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm bwysig.

## Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom, er bod y Dreth Gyngor yn ffynhonnell incwm fwyfwy pwysig i'r Cyngor, bod y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cynghorau Cymru. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae casglu'r Dreth Gyngor yn ffrwd incwm bwysig i'r Cyngor sydd dod yn fwy arwyddocaol dros y degawd diwethaf gan bod y ganran o wariant refeniw gros a ariennir gan Dreth Gyngor a gasglwyd wedi codi o 11.1% yn 2008-09 i 15.5% yn 2018-19, cynnydd o 35%;
- ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi cynyddu'r Dreth Gyngor y mae'n ei godi ar eiddo ym Mand D 42% rhwng 2010-11 a 2019-20;
- fe gynyddodd y Cyngor ei Dreth Gyngor Band D 4.95% yn 2018-19 a 5.95% yn 2019-20, codiadau a oedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl Gynghorau yng Nghymru;
- mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn yn y Cyngor wedi bod ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer holl Gynghorau Cymru am y pum mlynedd ddiwethaf; fodd bynnag
- mae'r gyfradd gasglu lwyr uwchlaw'r 99% a dybir yng nghyllideb y Cyngor.

## Arddangosyn 8: cyfraddau casglu'r dreth gyngor[16]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£41m** (96.8%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£42.4m**

[16] Stats Cymru, Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru: 2018-19, Mehefin 2019

## Mae lefel fenthyca’r Cyngor ar y cyfan wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy’n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a’u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau’r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai’n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom fod lefel fenthyca’r Cyngor ar y cyfan wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf: Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae’r Cyngor yn parhau i weithredu gyda’r terfynau a bennir yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chod Darbodus CIPFA.
- er bod gan y Cyngor bortffolio diwydiannol masnachol sy’n codi rhenti yn ôl cyfraddau’r farchnad, datblygwyd yr asedau hynny hanner can mlynedd yn ôl ac ni ystyrir eu bod yn fuddsoddiadau masnachol newydd ac ystyrir bod yr asedau a ffrydiau incwm perthnasol yn weithgareddau busnes rheolaidd.


### Arddangosyn 9: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor [17]

Mae’r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae’r Cyngor wedi’i fenthyca a chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net.



**£125m**

Cyfanswm yr arian a fenthyciwyd o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019



**4.6%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o’r gyllideb refeniw net 2018-19

[17] Datganiad Cyfrifon Torfaen 2018-19

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru